Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Newyddion Dysgu Cymraeg
Learn Welsh Latest

Gwanwyn
Spring 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Magu hyder i ddechrau dysgu a siarad Cymraeg
Building confidence to use and enjoy your Welsh

Hyder yw un o'r pethau pwysicaf wrth ddysgu'r Gymraeg fel oedolyn.

Yn y lle cyntaf, mae angen hyder i gerdded trwy ddrws yr ystafell ddosbarth – yn enwedig os yw dysgwyr yn teimlo'n ansicr am ailafael ym myd addysg. Mae angen hyder ar bobl yn eu gallu i ddysgu pwnc newydd fel y Gymraeg a hyder, hefyd, i ddal ati a pharhau i ddysgu a defnyddio'r iaith.

Hyder, felly, fydd thema gweithgareddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol dros y cyfnod nesaf, gydag ymgyrchoedd marchnata a gweithgareddau ledled Cymru sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a mwynhau'r Gymraeg.

Cyhoeddwyd erthygl yn y Western Mail gan Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan, am bwysigrwydd hyder. Darllenwch addasiad o'r erthygl yma.

Confidence is one of the most important things when it comes to learning Welsh as an adult.

In the first instance, it can take confidence to walk through the door - especially if learners have been away from education for a long time. People need to have confidence in their own ability to learn a new subject such as Welsh, and confidence to continue to learn and use the language.

'Hyder' – the Welsh for 'confidence' - will therefore be central to the National Centre for Learning Welsh's work over the coming months, with marketing campaigns and activities across Wales giving learners an opportunity to practise and enjoy using their Welsh.

An article by Helen Prosser, Director of Teaching and Learning at the National Centre, about the importance of confidence, was published recently in the Western Mail. Read a copy here.

Cymraeg Gwaith
Work Welsh

Mae'r Ganolfan wedi derbyn cadarnhad y bydd cyllid ar gyfer 'Cymraeg Gwaith', y cynllun llwyddiannus i gryfhau sgiliau dwyieithog yn y gweithle, yn parhau ar gyfer 2019/20. Ers ei lansio ym mis Ebrill 2017, mae bron i 13,000 o bobl wedi ymwneud â'r cynllun.

Mae datblygiadau ar gyfer 2019/20 yn cynnwys cydweithio gyda chyflogwyr o'r sectorau Iechyd, Gofal, Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae cynllun prentisiaethau gyda'r sector breifat hefyd ar y gweill. Mae chwe chwrs ar-lein bellach ar gael yn rhad ac am ddim, gyda sawl un wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol sectorau.

The Centre has received confirmation that funding for its successful programme, 'Work Welsh', which aims to strengthen bilingual skills in the workplace, will continue in 2019/20. Nearly 13,000 learners have taken part in the programme since it was launched in April 2017.

Developments for 2019/20 include working with employers from the Health, Social Care, Higher Education and Further Education sectors. Plans are also underway to develop apprenticeships with the private sector. Six online courses, which include ones tailored for different sectors, are also now available and open to everyone, free of charge.



Ar Lafar

Mae 'Ar Lafar', sef yr ŵyl Gymraeg genedlaethol i ddysgwyr, yn cael ei chynnal ar 6 Ebrill ar bedwar safle gwahanol: Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth a lleoliad newydd ar gyfer 2019, Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre.

Bydd yr ŵyl, sy'n rhad ac am ddim, yn cynnwys gweithdai ymarferol, o nyddu i greu map, teithiau tu ôl i'r llenni, perfformiadau di-ri a llawer mwy. Mae mwy o wybodaeth a rhaglen lawn o weithgareddau ar gael yma.

'Ar Lafar' the national festival for Welsh learners, will be held on 6 April across four different sites: St Fagans National Museum of History, Cardiff, the National Slate Museum in Llanberis, The National Library of Wales, Aberystwyth, and a new site for 2019, the National Wool Museum, Dre-fach Felindre.

Numerous activities will be held during this free festival, including spinning workshops, map-making, behind-the-scenes tours, various performances and much more. Further information and a full programme of activities can be found here.

Teithiau cerdded
Guided tours

Mae'r Ganolfan wedi trefnu teithiau cerdded ar gyfer dysgwyr dros fisoedd y gwanwyn a'r haf mewn rhannau gwahanol o Gymru, gan gynnwys Talacharn, Cwm Idwal, Treffynnon a'r Barri. Y bwriad yw annog dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg wrth fynd am dro. Mae rhagor o wybodaeth am bob taith a manylion cofrestru ar gael yma.

The Centre has organised guided tours for learners during the coming months in different parts of Wales including Laugharne, Cwm Idwal, Holywell and Barry. The aim is to encourage learners to practise speaking Welsh while they walk. Further information about each guided tour and registration details can be found here.

Cadeirydd newydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan

New Chair for Centre's Advisory Board

Mae'r Ganolfan yn falch o gyhoeddi mai Rheon Tomos yw Cadeirydd newydd ei Bwrdd Ymgynghorol. Bydd Rheon yn olynu'r Dr Haydn E Edwards fu yn y rôl am dair blynedd.

Cyfrifydd siartredig yw Rheon ac mae wedi gweithio mewn meysydd polisi a chyllid cyhoeddus ers blynyddoedd lawer. Yn wreiddiol o Wynedd, astudiodd ym Mhrifysgol Bangor.

Gwaith Rheon ac aelodau eraill y Bwrdd yw sicrhau bod y Ganolfan yn cyflawni ei hamcanion strategol o ran y sector Dysgu Cymraeg.

The Centre is pleased to announce the appointment of Rheon Tomos as the new Chair of the Centre's Advisory Board. Rheon will succeed Dr Haydn E Edwards who has chaired the Board for the past three years.

Rheon is a Chartered Accountant and has worked in both public finance and policy for many years. Rheon is a native of Gwynedd and graduated from Bangor University.

Rheon and other members of the Advisory Board will work to ensure the Centre achieves its strategic objectives on behalf of the Learn Welsh sector.

Cynhadledd Genedlaethol
National Conference

Hyder yw thema araith Stifyn Parri yng Nghynhadledd Genedlaethol y Ganolfan ar 11 Mai yng Ngwersyll yr Urdd, Bae Caerdydd.

Bydd Stifyn, sy'n gyflwynydd a chynhyrchydd creadigol profiadol, yn cynnal sesiwn o'r enw 'Bydda ar dy orau'. Yn ystod y gynhadledd, cynhelir gweithdy ar 'Aml ddiwylliannedd a Dysgu Cymraeg' gan y Dr Gwennan Higham a bydd cyfle, hefyd, i fynychu sgwrs gyda'r awdur a'r bardd Catrin Dafydd.

E-bostiwch swyddfa@dysgucymraeg.cymru am fwy o wybodaeth.

Confidence is the subject of keynote speaker, Stifyn Parri's speech at the Centre's National Conference on 11 May at the Urdd Residential Centre, Cardiff Bay.

Stifyn, who is an experienced presenter and creative producer, will hold a session called 'Be at your best'. During the conference, Dr Gwennan Higham will hold a workshop on 'Learn Welsh and multi culturalism'. Delegates will also get a chance to attend a talk with author and poet, Catrin Dafydd.

E-mail swyddfa@dysgucymraeg.cymru for further information.